Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Cydbwyllgor Archwilio** |
| Lleoliad: | **Pencadlys yr Heddlu** |
| Dyddiad: | **30 Gorffennaf 2019** |
| Amser: | **10:00 - 13:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Malcolm MacDonald (MM)<br>Mr Martin Evans (ME)<br>Mr Andre Morgan (AM)<br>Mr Alasdair Kenwright (AMSK)<br>Ms Kate Curran (KC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Dafydd Llywelyn Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (CoS)<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Cyllid (CFO)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (DoF)<br>Mr Ian Williams, Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (IW)<br>Ms Nicola Davies, Cyfrifydd yr Heddlu (ND)<br>Ms Karen Davies, Cyfrifydd yr Heddlu (KD)<br>Mr Richard Harries, WAO, (RH)<br>Ms Leanne Malough, WAO (LM)<br>Mr Jason Blewitt, WAO (JB)<br>Mr Jonathan Maddock (TIAA), (JM)<br>Miss Caryl Bond, Swyddog Cymorth Sicrwydd (CB)<br>Mr Huw Morgans, Cynghorydd Rheoli Parhad Busnes a Risg (HM)<br>Mrs Lynne Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Uned Cymorth Busnes (LD)<br>Mr Steve Cadenne, Cyfarwyddwr Busnes Dros Dro Gwasanaethau Pobl, (SC)<br>Ms Debby Jones, Arbenigwr Diogelwch Cofnodion a Gwybodaeth yr Heddlu (DJ) |
| **Ymddiheuriadau:** | Ms Vicky Davies, TIAA (VD)<br>Mr Mark Collins, Prif Gwnstabl (CC) |
| **Datganiadau o Ddiddordeb:** | Dim. |

| CRYNODEB O GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR (7 Mawrth 2019) | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithred Rhif | Crynodeb Gweithredu | I'w ddatblygu gan | Cynnydd |
| **A80 2017/18** | **Cywiro'r typo ar dudalen 10 y cofnodion fel y trafodwyd.** | **CB** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A82 2017/18** | **I'r cwestiynau a'r pwyntiau sy'n deillio o ddarllen Cynllun Archwilio Drafft WAO gael eu bwydo yn ôl i'r WAO.** | **CFO** | **Wedi'i gwblhau** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A84 2017/18** | **OPCC i gylchredeg sleidiau cyflwyniad Arlingclose i'r aelodau.** | **CB** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A84 2017/18** | **Gwahodd Arlingclose i gyflwyno yn y seminar cyllid ym mis Rhagfyr.** | **CB** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A86 2017/18** | **TIAA i weld a allant rannu gwybodaeth am le mae pob Heddlu o ran eu cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg.** | **TIAA** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A87 2017/18** | **TIAA i roi rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Pwyllgor ar gefndir SGH Associates.** | **TIAA** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A88 2017/18** | **IW i ddiwygio'r Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer y ddogfen Datganiad Cyfrifon 2018/19 yn unol â thrafodaethau.** | **IW** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A90 2017/18** | **IW i ddiwygio'r amserlen Cyfrifon Blynyddol i nodi y bydd y ddogfen ddrafft yn cael ei hanfon at yr OPCC ddiwedd mis Mai.** | **IW** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A95 2017/18** | **Gwahoddiad i seminar Mehefin i gael ei gylchredeg i KP.** | **CB** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A96 2017/18** | **Diwygiad i'w wneud ar ragair MM yn Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio 2018/19.** | **CB** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A96 2017/18** | **Bydd CoS yn ail-gylchredeg yr Adroddiad Blynyddol yn dilyn gwneud y diwygiadau.** | **CoS** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A96 2017/18** | **CB i ofyn i aelodau'r Pwyllgor am wybodaeth ar eu proffil a'u cefndir i'w chyhoeddi ar wefan PCC.** | **CB** | **Parhaus** |
| **A97 2017/18** | **CoS i ystyried lle mae'r ymddiriedolaeth yn eistedd yn gyfreithiol o ran ei chysylltiad â'r OPCC.** | **OPCC** | **Parhaus** |
| **A97 2017/18** | **Risg i'w hychwanegu at y gofrestr risg o ran y prosesau sydd ar waith o ran sgorio a chymeradwyo newidiadau i sgoriau risg**. | **DoF/PM** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A98 2017/18** | **Aelodau i edrych ar AGS a rhoi awgrymiadau ar sut y gellid ei ysgrifennu fel dogfen werthuso.** | **Aelodau** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A98 2017/18** | **CFO i weld a yw'n bosibl trefnu gweithdy wedi'i hwyluso gyda CIPFA ar yr AGS.** | **CFO** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A99 2017/18** | **Newid geiriad un o'r meysydd gweithredu ar gyfer 19/20 o fewn yr AGS o barodrwydd Brexit i oblygiadau Brexit.** | **KP** | **Wedi'i gwblhau** |

Croesawodd MM bawb i'r cyfarfod.
Ymddiheurwyd ar ran y Prif Gwnstabl a rhoddwyd croeso arbennig i'n haelod newydd o'r Cydbwyllgor Archwilio, Kate Curran.

**A100 2018/19: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2019 a Materion yn Codi**

Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol. Mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u cwblhau fel y manylir yn y tabl gweithredu.

Cam Gweithredu A82: Mewn perthynas â materion a godwyd yn y cyfarfod blaenorol, o fewn cynllun Archwilio drafft WAO ar gyfer 2019/20, mae cynnydd bach wedi'i gymhwyso i'r cyfraddau ffioedd (llai nag 1%), ond nid yw'n rhoi unrhyw arwydd o faint yn fwy yw hyn o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gofynnwyd hefyd, gyda'r cyfnod byrrach ar gyfer cau cyfrifon, a oes gan WAO ddigon o adnoddau. Dywedodd JB o WAO eu bod yn gallu cyflawni'r cynnydd bach a gymhwyswyd i gyfraddau ffioedd trwy newid eu cymysgedd sgiliau gydag un diwrnod yn llai o Amser Rheolwr Archwilio a phum diwrnod yn ychwanegol o Amser Hyfforddai. Nid oes unrhyw newid sylweddol i'r gymysgedd sgiliau archwilio a fyddai'n arwain at ostyngiad yn ansawdd yr archwiliad a ddarperir. Teimlwyd y byddai'n darparu gwell cefnogaeth archwilio, ac ar yr un pryd yn sicrhau effeithlonrwydd wrth gadw'r ffi gyffredinol i lefel debyg i'r flwyddyn flaenorol.

Cam Gweithredu A86: Esboniodd JB, o ran yr adolygiad o Gydymffurfiaeth y Gymraeg, dim ond gwirio cydymffurfiad â sampl o'r safonau yr oedd yr adolygiadau a gynhaliwyd yn eu gwneud. Ni chasglodd TIAA y wybodaeth gan bob Heddlu a PCC ar faint o safonau yr oeddent yn cydymffurfio â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn. Bellach mae contract cydweithredol ar waith a gellid ystyried hyn ar gyfer un o'r adolygiadau cydweithredol yn y dyfodol.

Cam Gweithredu A87: Esboniodd JB fod SGH Associates yn gwmni bach a sefydlwyd gan y Cyfarwyddwr Ansawdd blaenorol a ymddeolodd o'r busnes dros bum mlynedd yn ôl. Mae hyn yn cwrdd â'r gofyniad am Sicrwydd Allanol PSIAS oherwydd i lawer o sefydliadau mae hyn yn cael ei wneud trwy adolygiad cymheiriaid. Nid oes unrhyw ofyniad i ddefnyddio sefydliad.

Cam Gweithredu A96: Bydd CB yn symud ymlaen gyda Chadeirydd Cydbwyllgor Archwilio yn y lle cyntaf.

Cam Gweithredu A97: Esboniodd CoS fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â lle mae'r ymddiriedolaeth arni’n gyfreithiol o ran ei chysylltiad â'r OPCC. Bydd CoS yn dod â diweddariad mewn perthynas â hyn i gyfarfod yn y dyfodol.

Cam Gweithredu A97: Esboniodd DoF ei fod wedi bod mewn trafodaeth gydag HM mewn perthynas â'r cofrestrau risg a'r prosesau sydd ar waith o ran sgorio a chymeradwyo newidiadau i sgoriau risg. Esboniodd DoF fod ansicrwydd ai'r prosesau neu'r naratif sydd ar fai. Trafodir hyn yn fanylach pan fydd aelodau'n ystyried yr adroddiad lliniaru Risg ar yr agenda.

**Penderfyniad A100: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2019 fel cofnod cywir.**

**A101 2018/19: Cymeradwyo Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgorau Archwilio**

Adolygwyd drafft o Gylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Archwilio (ToR) yn y seminar ym mis Mehefin ac mae'r ddogfen wedi'i diwygio i adlewyrchu adborth.

Roedd CoS yn dymuno dwyn yr adran ar ddeiliadaeth y Cadeirydd i sylw'r Aelodau. Yn hanesyddol bu'r ddeiliadaeth am gyfnod o ddwy flynedd. Fodd bynnag, ar ôl edrych ar ganllawiau CIPFA a ToR eraill ar gyfer Pwyllgorau mewn mannau eraill; canfuwyd bod llawer yn dilyn deiliadaeth benagored gydag etholiad blynyddol y Cadeirydd, nad yw'n gwahardd ailethol y Cadeirydd presennol.

Cytunodd y Pwyllgor fod cyfnod o ddwy flynedd yn gyfyngol ac y dylid ei newid i ddeiliadaeth benagored, heb unrhyw gyfyngiad ynghylch ailethol yr un Cadeirydd. Cytunwyd y dylid cynnal etholiad Cadeirydd bob dwy flynedd.

**Cam Gweithredu A101: Mae'r ToR i'w ddiwygio i gynnwys newidiadau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â deiliadaeth Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio yn benagored gydag etholiad yn cael ei chynnal bob dwy flynedd.**

**Penderfyniad A101: Wrth aros am y diwygiadau a drafodwyd, roedd y Pwyllgor yn derbyn yn ffurfiol Cylch Gorchwyl diwygiedig y Cydbwyllgor Archwilio.**

**Cam Gweithredu A101: Cyhoeddi ToR diwygiedig y Cydbwyllgor Archwilio ar wefan y Comisiynwyr.**

## A102 2018/19: Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19

Rhoddodd JM drosolwg o'r adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol. Roedd y Pwyllgor yn hapus gyda'i gynnwys a'r trosolwg a roddwyd o'r 22 archwiliad a gynhaliwyd.

## A103 2018/19: Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) o Adroddiad Datganiadau Ariannol 2018/19

Esboniodd JB mai hwn yw'r adroddiad y mae WAO yn ei gynhyrchu i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau archwiliad o gyfrifon ar gyfer y CC a'r PCC.

Esboniodd JB fod yr archwiliad bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth a'u bod wedi derbyn y cyfrifon o fewn y dyddiad cau y cytunwyd arno. Cydnabu JB fod hwn yn gyflawniad sylweddol i'r Adran Gyllid o ran cwblhau'r cyfrifon i'w harchwilio yn unol â'r dyddiad cau tynn y cytunwyd arno. Mae ymgymryd â chynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon i'r dyddiadau cau cynharach hyn wedi nodi nifer o bwyntiau dysgu i'r tîm cyllid ac WAO. Yn benodol, mae angen sicrwydd ansawdd cadarnach o'r cyfrifon a'r papurau gwaith adeg derbyn y cyfrifon drafft. Mae WAO yn trafod gyda swyddogion ynglŷn â hyn a byddant yn parhau i weithio gyda hwy i'w paratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Diolchodd MM i bawb a oedd yn rhan o'r broses o gwblhau'r Datganiad o Gyfrifon.

## A104 2018/2019: Adolygiad Gwerthuso o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol. Rhoddwyd manylion tri argymhelliad blaenoriaeth tri o'r adolygiad, sef: cynnydd gweithredu camau a nodwyd yn y Matrics Tystiolaeth i'w diweddaru yn rheolaidd, mae angen i'r Cynlluniau Gweithredu cyfredol ar gyfer 2019/20 nodi amserlen darged ar gyfer cwblhau pob gweithred; a bod angen i'r Matrics Tystiolaeth gael ei ddatblygu gan Reolwyr ac Arweinwyr Busnes ac nid dim ond y Rheolwr Llywodraethu a Pherfformiad a'r Pennaeth Staff.

**A106 2018/2019: Drafft 2016/17 Llythyrau Cynrychiolaeth - Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl**

Roedd yr aelodau'n hapus gyda'r cynnwys ac argymhellwyd llofnodi'r llythyrau gan y llofnodwyr priodol.

**Cam Gweithredu 106: Cafodd Llythyr Cynrychiolaeth drafft yr Heddlu a Throseddu ei argymell i'w lofnodi gan y llofnodwyr priodol.**

**Cam Gweithredu 106: Cafodd Llythyr Cynrychiolaeth drafft y Prif Gwnstabl ei argymell i'w lofnodi gan y llofnodwyr priodol.**

**A107 2018/2019: Ymateb y rheolwyr i'r ymholiadau archwilio ar drefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll**

Nododd KC, ar dudalen 6 lle mae'n nodi pa drefniadau sydd ar waith i adrodd twyll i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, nad oes cyfeiriad at y Cydbwyllgor Archwilio er bod twyll yn dod o fewn eu cylch gwaith yn y ToR. Cytunodd y Pwyllgor fod angen cynnwys Cydbwyllgor Archwilio. Esboniodd y CFO eu bod ar hyn o bryd yn gwneud darn o waith i roi Polisi Gwrth-Dwyll a Gwrth-lygredd ar waith y cyfeirir ato yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Esboniodd CFO fod meincnodi yn cael ei gynnal ac y bydd y gwaith hwn yn dod yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

Nododd RH y dylai'r ddogfen lywio'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod y flwyddyn, felly nododd y gallai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol cael trafodaeth ynghylch cynnwys y ddogfen.

**Cam Gweithredu 107: Dod â'r polisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd i'r Pwyllgor yn y dyfodol.**

**Cam Gweithredu 107: Cyfeirio at y Cydbwyllgor Archwilio fel trefniant i adrodd o fewn ymateb y Rheolwyr i'r ymholiadau archwilio ar drefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.**

**A108 2018/2019: Datganiad Cyfrifon Blynyddol Drafft ar gyfer 2018/19**

Nodwyd bod seminar mis Mehefin yn fuddiol i'r broses wrth baratoi'r cyfrifon a bod hyn yn rhywbeth a ddylai barhau i ddigwydd yn flynyddol.

Roedd AM yn dymuno nodi ar dudalen 19, o dan adran 6 - 'Risgiau, cyfleoedd a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig' bod y pwyntiau cyntaf o fewn yr adran hon mewn perthynas â

risgiau ac yna cynllunio ariannol. Nid oes cyfeiriad at gyfleoedd a gofynnwyd a allai teitl gwahanol fod yn fwy priodol i adlewyrchu'r cynnwys.

Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Pwyllgor fod hyn yn rhywbeth i'w nodi wrth baratoi'r ddogfen nesaf yn y dyfodol, i adolygu a yw'r penawdau'n adlewyrchu'r cynnwys, gan gadw'n unol â geiriad safonol yr adroddiad.

Holodd KC am bwynt ar dudalen 40 -41. Mae'r tabl dibrisiant ar dudalen 40 ar gyfer Asedau a ddelir i'w gwerthu yn awgrymu eu bod wedi dibrisio, ond eto yn y paragraff ar dudalen 41 mae'n nodi "Ni chodir dibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w gwerthu". Mae hwn yn wrthddywediad. Cytunodd y Pwyllgor â'r arsylwad hwn.

**Cam Gweithredu 108: I'r tabl ar dudalen 40 gael ei ddiwygio cyn llofnodi'r Datganiad Cyfrifon.**

**Cam Gweithredu 108: Mae'r Pwyllgor yn argymell y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Drafft ar gyfer 2017/18 i'r PCC a CC ei gymeradwyo.**

Mynegodd y PCC ei ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r broses o baratoi'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol.

Mynegodd y DoF ei ddiolch i'r tîm cyllid a chefnogaeth tîm WAO wrth baratoi ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon.

**A109 2018/2019: Datganiad CIPFA Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol**

Esboniodd CFO eu bod yn dal i aros am gadarnhad o ddyddiad y diwrnod hyfforddi blynyddol sy'n cynnwys mewnbwn gan CIPFA. Gogledd Cymru sy'n trefnu'r hyfforddiant eleni a bwriedir ei gynnal yn Wrecsam. Cyn gynted ag y bydd y dyddiad wedi'i gadarnhau, bydd yn cael ei gylchredeg i'r aelodau.

Teimlai MM fod y ddogfen hon ar Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol yn nodi pwysigrwydd Archwilio Mewnol. Nododd MM y gallai fod yn ddefnyddiol i TIAA roi adborth ar sut maen nhw'n teimlo bod yr egwyddorion hyn yn berthnasol i'w sefydliad ac a ydyn nhw'n teimlo bod modd gweithredu'r egwyddorion.

**Cam Gweithredu 109: TIAA i roi adborth yn y cyfarfod nesaf ar sut mae'r egwyddorion fel y'u nodir yn natganiad CIPFA Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol yn berthnasol i TIAA fel sefydliad.**

Nododd DoF mai egwyddor 3 - "Rhaid i'r HIA fod yn uwch reolwr gydag ymgysylltiad rheolaidd ac agored ar draws y sefydliad, yn enwedig gyda'r tîm arweinyddiaeth a chyda'r pwyllgor archwilio" yw'r mwyaf heriol fel sefydliad allanol yn ôl pob tebyg. Nododd CoS hefyd ei bod yn bwysig, o ran egwyddor tri, sicrhau bod Archwilio Mewnol yn hygyrch i'r sefydliad.

**A110 2018/2019: Adroddiad cynnydd 2018/19 yr Archwilwyr Mewnol (SICA)**

**a) Adroddiad SICA ar gyfer 2018/19**

Esboniodd JM fod yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad terfynol i'r Cydbwyllgor Archwilio ar hynt eu gwaith Heddlu ar gyfer 2018/19. Cododd y PCC bwynt ynghylch prydlondeb adolygiadau dilynol a'u pwysigrwydd. Nododd DoF hefyd fod angen iddynt edrych ar yr amser rhwng pan dderbynnir drafft a'u hymateb ffurfiol yn ôl.

Nododd y CFO, fel rhan o'r adolygiad llywodraethu parhaus, nodwyd nad oedd yr adroddiadau archwilio mewnol bob amser yn ffitio i mewn i strwythur adrodd y sefydliad. O ganlyniad i hyn mae grŵp bellach o'r enw'r Grŵp Archwilio a Sicrwydd Ansawdd a fydd bellach yn goruchwylio adroddiadau archwilio mewnol, gan gynnwys camau gweithredu sy'n weddill a phrydlondeb.

**b) Adroddiad SICA ar gyfer 2019/20**

Esboniodd JM fod yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio ar gynnydd eu gwaith hyd at 19 Gorffennaf 2019. Esboniwyd bod hyn ar hyn o bryd yn cynnwys un archwiliad ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**A111 2018/2019: Adroddiadau'r archwilwyr mewnol:**

**a) Adolygiad TGCh o Gydymffurfiad â Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) - Ymweliad 2**

Ni roddwyd asesiad sicrwydd ar gyfer yr adolygiad hwn gan ei fod yn dilyn ymlaen ar adolygiad o gydymffurfiad GDPR a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018. Rhannwyd yr adolygiad hwn yn ddwy ran gyda'r adran gyntaf yn cael ei chwblhau ym mis Mawrth 2019. Esboniwyd bod yr adroddiad hwn yn dilyn ymlaen ar yr argymhellion hynny a amlinellwyd ym mis Mawrth. Rhoddwyd un argymhelliad blaenoriaeth dau mewn perthynas â rhaglen hyfforddi diweddaru diogelu data yr oedd angen ei chyflwyno ar gyfer holl staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i dderbyn, ac yn cael ei ddatblygu.

Holodd KC o ran GDPR faint o geisiadau mynediad at ddata gan destun a dderbynnir gan yr heddlu ac OPCC. Esboniodd DJ fod ceisiadau mynediad at ddata gan destun wedi cynyddu 20% ers gweithredu GDPR.

**Cam Gweithredu 111: I nifer y ceisiadau Mynediad at Ddata gan Destun a dderbynnir gan yr Heddlu gael eu cylchredeg i'r Pwyllgor.**

**b) Adolygu Cydymffurfiaeth Gwrth-Dwyll - Caffael**

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol gyda dau argymhelliad blaenoriaeth 3 wedi'u derbyn. Roedd y rhain mewn perthynas â'r Trothwyon Caffael a gyhoeddir ar wefan yr Heddluoedd o dan adran 'Contractau a Chaffael' sydd i'w diwygio yn unol â'r terfynau a nodir yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ac adolygiad cronfa ddata cyflenwyr a gynhelir yn flynyddol i gael gwared ar ddyblygu a chyfrifon cyflenwyr heb eu defnyddio. Nododd JM fod yr archwiliad hwn yn dangos gwelliant parhaus.

**c) Adolygiad Sicrwydd o Seilwaith TGCh**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth dau: Profi safle Rhydaman yn llawn unwaith y bydd y system 999 newydd wedi'i rhoi ar waith yn llawn.
Esboniodd DoF fod y seilwaith TGCh yn Rhydaman wedi hen ddechrau ac ymddengys ei fod yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, maent yn dal i gael problemau gyda gweithredu'r system 999 newydd; mae oedi pellach gyda'r darparwr gwasanaeth yn methu â chyflawni 'ar amser'. Nododd KC fod y dyddiad gweithredu newydd yn yr adroddiad yn nodi 02/07/2019 a gofynnodd a yw hyn bellach wedi'i fodloni. Esboniodd DoF nad yw hyn wedi'i gyflawni a'u bod bellach yn gweithio tuag at fis Medi / Hydref.
Nododd DoF ei bod yn anodd iawn rhoi dyddiad cywir oherwydd ei fod yn ddibynnol ar gontractwr allanol. Dywedodd JM y bydd hyn yn cael ei adolygu eto ym mis Medi.

**d) Adolygiad Sicrwydd o Reoli Absenoldeb**

Canlyniad: Sicrwydd Cyfyngedig gydag un argymhelliad blaenoriaeth 1, wyth argymhelliad blaenoriaeth 2 a thri argymhelliad blaenoriaeth 3. Roedd argymhelliad blaenoriaeth 1 yn ymwneud ag amser i ffwrdd ar gyfer Absenoldeb Tosturiol ac Amser i ffwrdd i Ddibynyddion gael eu talu i'r holl staff yn unol â'r Absenoldeb am resymau Teuluol Personol ynghyd â Pholisi Absenoldeb Arbennig Arall. Roedd yr archwiliad wedi nodi ychydig o achosion lle’r oedd unigolion yn cael eu talu'n llawn dros 5 diwrnod, sy’n mynd yn groes i bolisi.

Croesawodd y Pwyllgor Steve Cadenne, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro Gwasanaethau Pobl i'r cyfarfod. Gofynnodd MM pa brosesau adolygu sydd ar waith os oes angen mwy na phum diwrnod i ffwrdd ar unigolyn. Nododd AC hefyd, os nad yw'r polisi'n cael ei ddilyn, a oes angen adolygu ei gynnwys i'w wneud yn fwy hyblyg. Esboniodd SC fod yr Heddlu'n darparu uchafswm o bum diwrnod i ffwrdd â thâl. Esboniodd SC hefyd nad ydyn nhw wedi archwilio'r maes hwn o'r blaen ac ar hyn o bryd nid oes ganddyn nhw system awtomataidd nac ar-lein i ofyn am y math hwn o absenoldeb. Ar hyn o bryd, mae hyn i gyd yn cael ei wneud â llaw, sy'n ei gwneud hi'n anodd monitro'r ceisiadau.

Esboniodd SC eu bod wedi rhoi’r camau canlynol ar waith i sicrhau bod staff yn gweithredu’r polisi; anfonwyd cyfathrebiad gan yr Heddlu i ailadrodd y polisi ac mae rhaglen hyfforddi rheolwyr llinell newydd sy'n cynnwys 'diwrnod y Bobl' a fydd yn cynnwys hyfforddiant ar ddyrannu amser i ffwrdd. Bydd yn ofynnol i bob rheolwr llinell fynychu'r hyfforddiant hwn a bydd yn gyfle i sicrhau bod yr holl staff yn deall na ddylent fynd dros y lwfans absenoldeb pum niwrnod fel y nodir yn y polisi.

Esboniodd SC hefyd eu bod yn y broses o edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael system ar-lein lle bydd pob cais am absenoldeb yn cael ei fewnbynnu, gan ganiatáu i uchafswm o bum niwrnod gael eu cymryd yn unig. Byddant yn parhau i fonitro'r maes hwn i sicrhau gwelliant.

Cadarnhaodd SC na fydd yr hawl i absenoldeb yn cael ei newid yn dilyn yr adolygiadau Polisi.

Rhoddodd SC ddiweddariad mewn perthynas â'r polisi Rheoli Presenoldeb a Pherfformiad ac amlygodd bwyntiau sbarduno sydd i'w defnyddio gan reolwyr fel ysgogiad i ystyried cyflwyno cynllun cefnogol. Esboniodd SC fod hyn yn oddrychol, gan nad yw'r holl staff sy'n taro sbardun yn cael eu rhoi ar gynllun. Mae'n dibynnu ar ddisgresiwn y rheolwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob rheolwr yn gallu rhoi rhesymeg pam nad ydyn nhw'n cael eu rhoi ar gynllun os yw sbardun yn cael ei daro. Esboniodd SC y bydd hyn hefyd yn cael sylw yn yr hyfforddiant 'diwrnod y Bobl'.

Roedd SC yn dymuno nodi bod yr archwiliad hwn wedi bod yn fuddiol iawn, gan ei fod wedi helpu i nodi meysydd i'w gwella mewn meysydd na chawsant eu harchwilio o'r blaen.

Nododd JM ei bod yn dda gweld adrannau'n cael mewnbwn i'r hyn sy'n cael ei adolygu i sicrhau bod yr ardaloedd cywir yn cael sylw.

**e) Adolygiad Sicrwydd o Brosiect Cydweithredol TARIAN ROCU**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gyda dau argymhelliad blaenoriaeth 2 a chwe argymhelliad blaenoriaeth 3. Esboniodd JM fod hwn yn adolygiad cydweithredol rhwng Heddlu De Cymru, Gwent a Dyfed-Powys. Roedd y prif feysydd pryder yn ymwneud â ffurfioli amserlen i sicrhau bod y gyllideb flynyddol yn cael ei chytuno cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Ddiwedd mis Mawrth 2019 nid oedd y gyllideb ar gyfer 2019/20 wedi'i chwblhau eto ac y bydd unrhyw arian dros ben sydd wedi'i ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn y tri heddlu, ar gael i TARIAN yn ystod 2019/20 yn ôl yr angen. Derbyniwyd pob argymhelliad.

Esboniodd y PSA fod hwn yn bryder parhaus o ran rhai o'r canfyddiadau hyn yn yr adroddiad a bod y rhain wedi'u cynnwys ar y gofrestr risg. Fe wnaethant nodi rhai risgiau ynghylch trefniadau llywodraethu a chafwyd trafodaethau gyda WAO mewn perthynas â gwneud rhywfaint o waith o ran gwerth am arian.

**f) Adolygu Cydymffurfiaeth Rheoli Risg - Rheolaethau Lliniaru**

Croesawodd y Pwyllgor Huw Morgans, y Cynghorydd Rheoli Risg a Pharhad Busnes a Lynne Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Uned Cymorth Busnes.

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2 a dau argymhelliad blaenoriaeth 3. Esboniodd JM fod y prif bryder a nodwyd o'r adolygiad mewn perthynas â risg 9 a'r angen i gynyddu ei sgôr. Oherwydd y sefyllfa bresennol yn oedi'r feddalwedd a'r ôl-groniad prosesu data, mae'r Heddlu'n agored i risgiau gyda chywirdeb y data yng Nghyfrifiadura Cenedlaethol yr Heddlu. Teimlwyd y dylid cynyddu'r sgôr risg nes bod y system yn gwbl weithredol a phrosesu data wedi gostwng i nifer fwy ymarferol. Cytunwyd ar yr argymhelliad hwn a gweithredwyd sgôr risg o 16.

Roedd HM yn dymuno nodi bod yr archwiliad yn fuddiol gyda'r meysydd cywir yn cael eu hadolygu. Roedd yn ddefnyddiol bod yn rhan o'r broses wrth ddewis meysydd i'w hadolygu. Sicrhaodd hyn fod y meysydd cywir yn cael eu dewis i'w craffu.

Gofynnodd PCC, sut mae Dyfed-Powys o'i gymharu â heddluoedd eraill mewn perthynas â phrydlondeb cofnodi PNC a'n diweddariadau ôl-groniad ac ati. Esboniodd LD, o'i gymharu'n genedlaethol am brydlondeb, mae Dyfed-Powys yn gwneud yn dda.

Tynnodd DoF sylw at y ffaith mai un maes nad yw'n cael sylw yn yr adroddiad yw lefel uchel o amryfusedd a phrofi ynghylch y risg hon, mae gwaith parhaus yn cael ei wneud gan yr adran er mwyn ceisio lliniaru'r risgiau.

Er mwyn lliniaru'r risg, nododd LD eu bod yn blaenoriaethu cofnodi'r diweddariadau risg uwch. Esboniodd LD y gall pob cofnod gymryd tua 25 munud i'w uwchlwytho, eglurodd LD, unwaith y gallant gael system awtomataidd, a fydd yn helpu i drawsosod gwybodaeth o'r system ddalfa, byddai hyn yn lleihau’r amser yn sylweddol, gan eu helpu i gofnodi diweddariadau yn fwy effeithlon.

Nododd LD, o ran y gwaith parhaus i gyflawni'r system awtomataidd, y bu oedi oherwydd ansicrwydd ynghylch pwy allai gyflawni'r system sy'n ofynnol. Mae Tîm Datblygu'r Heddluoedd bellach wedi'i gomisiynu i greu'r system awtomataidd.

Nododd LD hefyd fod goruchwyliaeth o'r darpariaethau ar gyfer y gwaith datblygu yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau.

Roedd PCC eisiau tynnu sylw at y ffaith bod risgiau hefyd yn cael eu trafod yn y Bwrdd Plismona, sy'n rhoi cyfle arall i risgiau gael eu monitro a'u craffu.

**A112 2018/2019: Adolygiad Dilynol Yr Archwiliad Mewnol Gorffennaf 2019**

Esboniodd JM fod yr adroddiad hwn yn crynhoi'r adolygiadau y maent wedi'u dilyn i fyny fel rhan o'r broses. Prif ganfyddiadau'r adroddiad yw bod 45 allan o 86 o argymhellion (53%) a adolygwyd wedi'u gweithredu gan Heddlu Dyfed-Powys ac mae 28 o argymhellion eraill (33%) wrthi'n cael eu gweithredu. Roedd un argymhelliad (1%) wedi'i ystyried ond nid oedd wedi'i weithredu. Ni ellid mynd ar drywydd 11 o'r argymhellion yn ystod yr archwiliad, gan nad oedd y person cyfrifol ar gael. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cynnwys yn yr archwiliad dilynol nesaf.

Nododd MM fod 11 o argymhellion na ellir eu gweithredu oherwydd nad yw unigolion cyfrifol ar gael yn eithaf uchel. Esboniodd JM eu bod yn ceisio trefnu cyfarfodydd ar gyfer mis Medi ac y byddant yn ceisio bod yn hyblyg ar y diwrnodau y maent yn mynychu'r Pencadlys er mwyn ceisio darparu ar gyfer gwahanol argaeledd er mwyn osgoi oedi.

Nododd IW y bydd craffu trymach ar brydlondeb ymatebion wrth symud ymlaen oherwydd adnabuwyd bod oedi wedi bod. Esboniodd IW hefyd eu bod am ddefnyddio porth ar-lein, y mae TIAA yn ei gynnig fel rhan o'u gwasanaeth. Bydd hyn yn gwneud casglu ymatebion a darparu adborth yn fwy effeithlon.

Cadarnhaodd JM fod y porth ar-lein yn gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill ac y dylai fod yn ddatblygiad cadarnhaol wrth symud ymlaen.

Gofynnodd KC a fyddai’n bosibl yn y dyfodol yn yr adroddiadau dilynol lle mae’n nodi’r argymhellion sy'n weddill i nodi pa rai o'r rheini sy'n argymhellion blaenoriaeth uchel.

**Cam Gweithredu 112: TIAA i ychwanegu blwch lefel blaenoriaeth i ddilyn i fyny Adolygiadau i nodi lefel yr argymhellion, sy'n weddill.**

**A113 2018/2019: Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol wedi'i ddiweddaru**

Nododd JM, o ran llunio'r Cynllun Archwilio Mewnol, ei fod wedi cael gwahoddiad i gyfarfod y Grŵp Archwilio a Sicrwydd Ansawdd ac wedi ymgysylltu â nifer o reolwyr i benderfynu pa feysydd sy'n peri pryder iddynt, a allai fod yn destun archwiliad mewnol. Yn anffodus ni ddaeth llawer o reolwyr ymlaen â meysydd pryder, fodd bynnag, rhoddodd gyfle i dynnu sylw at fanteision cael archwiliad a sut y gall fod o gymorth. Esboniodd IW, oherwydd ymateb isel yr ardaloedd a oedd yn gofyn am adolygiad, fod hyn yn gadael capasiti yn y cynllun. Penderfynwyd ar feysydd pellach i'w hadolygu o'r diwrnod cwmpasu, a gyflwynir yn y cynllun i'r aelodau eu hystyried.

Holodd ME, o ran risgiau, a fyddai'n werth edrych ar y broses gyfan eto. Nododd JM hyn a bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Medi wrth gynllunio'r dull ar gyfer 2020/21.

Esboniodd JM fod Atodiad C y cynllun yn nodi'r cynllun blynyddol cydweithredol. Cytunwyd ar bum adolygiad cydweithredol, penderfynwyd ar y meysydd i'w hadolygu gan y pedwar heddlu. Mae pob heddlu yn cael maes i'w arwain, gyda Dyfed-Powys yn derbyn Dyledwyr. Neilltuir un archwilydd i gynnal yr archwiliad ar gyfer y pedwar heddlu gan sicrhau parhad gydag un adroddiad cyffredinol yn cael ei gynhyrchu.

Esboniodd IW fod y meysydd i'w hadolygu wedi'u dewis gyda ffocws ariannol, gyda'r arweinwyr ariannol ym mhob un o'r pedwar heddlu yn arwain, er mwyn goruchwylio'r broses newydd cyn ei chyflwyno i adrannau eraill y flwyddyn nesaf.

**A114 2018/2019: Risgiau Corfforaethol Arwyddocaol yr Heddlu**

Esboniodd HM fod yr Heddlu'n bwriadu adolygu ei chwant am risg mewn perthynas â risgiau rheoli gwybodaeth. Mae hyn yn deillio o ymweliad gan archwilwyr Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (ICO) ar ddechrau'r flwyddyn lle nodwyd gwendid posibl fel sefydliad am nad oedd ganddo gofrestr risg gwybodaeth ar wahân. Derbyniwyd hyn ac maent yn mynd â chynnig gerbron y Bwrdd Gwybodaeth a Sicrwydd y mis nesaf i gyflwyno cofrestr risg newydd i'r sefydliad, sy'n cynnwys y risgiau gwybodaeth yn unig. Bydd hyn yn caniatáu i'r sefydliad ganolbwyntio ar risgiau gwybodaeth mewn ffordd gadarnach.

Rhoddodd HM drosolwg o'r tri maes risg newydd yn y gofrestr Risg Gorfforaethol. Y risg newydd gyntaf yw gallu'r farchnad fforensig draddodiadol mewn perthynas â'r ymateb i'r seiber-ymosodiad ar Wasanaethau Fforensig Eurofins. Esboniodd HM fod Eurofins bellach wedi cael sicrwydd gan heddluoedd yn genedlaethol ac y bydd nawr yn gallu cynnal busnes fel arfer. Mae'r risg wedi gostwng o 16 i 8.

Mae'r ail risg newydd mewn perthynas â chwmni o'r enw SYTECH (Systems Technology Consultants Limited) y tynnwyd eu hachrediad pan ddaeth hi i'r amlwg eu bod wedi defnyddio rhai staff heb fetio ar achosion a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys. Ers hynny mae'r unigolion hyn wedi cael eu fetio. Hysbyswyd ICO ac mae Dyfed-Powys yn dal i aros am gyngor Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i weld a oes unrhyw oblygiadau.

Roedd y drydedd risg mewn perthynas ag ansicrwydd yn y rhagamcaniad ariannol gan achosi rheidrwydd i gyrraedd cynllun cynilo; yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfredol, mae'r MTFP yn gofyn am sicrhau arbedion blynyddol er mwyn dychwelyd i gyllideb gytbwys. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch canlyniad Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol y Llywodraeth, newidiadau posibl i ariannu fformiwla'r heddlu a dyfarniadau cyflog sydd ar ddod.

Rhoddodd HM eu diweddariadau mewn perthynas â risgiau presennol, gan gynnwys Brexit, eglurodd HM fod yr Heddlu yn paratoi ar gyfer Brexit dim bargen bosibl. Mae 4 heddlu Cymru yn y broses o sefydlu amserlen o gyfarfodydd / cynadleddau ffôn i sicrhau parodrwydd addas i’r diben ar gyfer gadael heb fargen.

Holodd MM am reoleidd-dra cyfarfodydd y grŵp llywio. Sicrhaodd HM y Pwyllgor fod Grŵp Ymadael yr UE yn arfer cyfarfod yn wythnosol a byddant yn ail-afael yn hyn wrth i weithgaredd Brexit ddatblygu.

Mae'r risg mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth ynghylch mechnïaeth cyn cyhuddo wedi cychwyn darn o waith i edrych ar ansawdd penderfyniadau mechnïaeth. Roedd hyn yn dangos sefyllfa mechnïaeth pobl dan glo o 13%, a oedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 4%. Yn flaenorol, mynegwyd pryderon oherwydd gallai hyn ddangos gorddefnydd neu ddefnydd anghywir o fechnïaeth o fewn yr Heddlu. Fodd bynnag, mae arweiniad Cyngor Penaethiaid yr Heddlu Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 29 Mai 2019, wedi nodi pryder gyda'r sefyllfa genedlaethol i'r graddau y gallai gostyngiad mewn mechnïaeth olygu colli cyfleoedd i amddiffyn pobl agored i niwed a rhoi amodau ar droseddwyr treisgar a allai atal aildroseddu. Mae'r arweiniad yn gosod data Dyfed-Powys mewn goleuni gwahanol a gallai awgrymu bod Dyfed-Powys yn gwneud defnydd priodol o fechnïaeth.

**A115 2018/2019: Diweddariad ar Ddatganiad Rheoli'r Heddlu (FMS)**

Atgoffodd DoF y Pwyllgor eu bod wedi derbyn cyflwyniad ar y FMS yn eu seminar ym mis Mehefin lle tynnwyd sylw at risgiau allweddol. Esboniodd DoF fod y ddogfen yr oeddent wedi'i derbyn wedi nodi risgiau a meysydd pryder y gallai'r Heddlu eu hwynebu wrth baratoi ar gyfer y FMS. Mae gan bob cam gweithredu berchennog a bydd y rhain yn cael eu defnyddio wrth baratoi ar gyfer arolygiadau CThEM.
Holodd ME pa mor aml y bydd y ddogfen hon yn cael ei dwyn i sylw Cydbwyllgor Archwilio. Yn dilyn trafodaeth, roedd y Pwyllgor yn teimlo bod y FMS yn cael sylw da yn y seminar cyllid, fodd bynnag, os oes unrhyw ddiweddariadau yna gallai hyn gael ei gynnwys yn y seminar Datganiad Cyfrifon neu pan fernir bod angen ei adolygu.

Roedd PCC yn dymuno nodi, er bod y FMS yn ofyniad ar gyfer CThEM, mae croeso mawr iddo, gan ei fod yn helpu PCC i gael trosolwg o'r Heddlu. Gall PCCau ddwyn heddluoedd i gyfrif wrth fonitro'r cynnydd a wneir yn erbyn y camau sy'n deillio o'r FMS.
Nododd MM y byddent yn estyn gwahoddiad i CThEM eto i fynychu cyfarfod Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

**A116 2018/2019: Camau Gweithredu Grŵp Llywodraethu Corfforaethol - 9 Gorffennaf 2019**

Edrychodd y Pwyllgor ar y camau a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Nododd DoF fod y prif ffocws yn y cyfarfod hwn ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), y Grŵp Archwilio a Sicrwydd Ansawdd a'r cynllun Archwilio Mewnol sydd i gyd wedi cael sylw yn y cyfarfod heddiw.

**A117 2018/2019: Mewnbwn ar Arolygiad Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth o Heddlu Dyfed-Powys ac ymateb yr Heddluoedd**

Croesawodd MM Debby Jones, Arbenigwr Diogelwch Cofnodion a Gwybodaeth yr Heddlu i'r cyfarfod.

Dywedodd DJ fod yr ymweliad gan swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth yn fuddiol iawn. Nodwyd 88 o gamau gweithredu fel ffyrdd o wella, gan ddod â ffocws i'r adran o'r hyn sy'n ofynnol i symud ymlaen.

Esboniodd DJ fod tri maes yn cael eu hystyried: Llywodraethu ac Atebolrwydd, Rheoli Risg Gwybodaeth a Cheisiadau am Ddata Personol. Rhoddodd DJ y wybodaeth ddiweddaraf am

y cynnydd, gan egluro bod 82% o'r argymhellion hynny ar y gweill o ran Llywodraethu ac Atebolrwydd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r gofrestr risg gwybodaeth newydd. Maent wedi cyhoeddi rhybudd preifatrwydd newydd ac maent wedi cwblhau ailstrwythuro, gyda'r holl swyddi gweigion yn yr adran bellach wedi'u llenwi.

O ran yr ail faes Rheoli Risg Gwybodaeth, mae 92% o'r camau gweithredu ar y gweill. Mae'r cynnydd yn cynnwys Polisi Risg Gwybodaeth newydd a chynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth. Y trydydd maes Ceisiadau am Ddata Personol, mae 83% o'r camau gweithredu ar y gweill. Roedd y camau gweithredu'n cynnwys cyflwyno templedi ac adolygu'r broses mynediad at ddata gan y testun.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud a bydd Archwilwyr yn dychwelyd ar ddiwedd y flwyddyn i wirio datblygiadau. Cadarnhaodd DJ fod cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwybodaeth a Sicrwydd sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.

Cafwyd trafodaeth ynghylch toriadau data a bydd unrhyw doriadau data a adroddir i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu dwyn i’r Cydbwyllgor Archwilio. Roedd y PCC yn dymuno rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ei fod hefyd yn ymwybodol o unrhyw doriadau data fel goruchwyliaeth ychwanegol i'r Pwyllgor.

Nododd AM mai'r dyddiad targed ar gyfer yr 88 cam gweithredu yw mis Medi a holodd a yw'r dyddiad hwn yn gyraeddadwy. Cadarnhaodd DJ eu bod yn hyderus y byddant yn gallu cyrraedd y targed hwn fel y mae pethau ar hyn o bryd.

**A118 2018/2019: Unrhyw Fusnes Arall**

Dim busnes pellach i'w drafod.

Diolchodd MM i bawb am ddod i'r cyfarfod.

**Daeth y Cyfarfod i ben am 13:46 o'r gloch**

| PENDERFYNIADAU SY'N DEILLIO O'R CYFARFOD 30 Gorffennaf 2019 | | |
|---|---|---|
| Rhif Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | |
| **A100 2018/19** | **Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **A101 2018/19** | **Wrth aros am y diwygiadau a drafodwyd, roedd y Pwyllgor yn derbyn yn ffurfiol Cylch Gorchwyl diwygiedig y Cydbwyllgor Archwilio.** | **Wedi'i gwblhau** |

| CAMAU GWEITHREDU SY'N DEILLIO O'R CYFARFOD 30 Gorffennaf 2019 | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu Rhif | Crynodeb Gweithredu | I'w ddatblygu gan |
| **A101 2018/19** | **Mae'r ToR i'w ddiwygio i gynnwys newidiadau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â deiliadaeth Cadeirydd y Cydbwyllgor yn benagored gydag etholiad yn cael ei gynnal bob tair blynedd.** | **OPCC** |
| **A101 2018/19** | **Cyhoeddi ToR diwygiedig y Cydbwyllgor Archwilio ar wefan y Comisiynwyr.** | **OPCC** |
| **A106 2018/19** | **Argymhellwyd llofnodi Llythyr Cynrychiolaeth drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan y llofnodwyr priodol.** | **CC/PCC** |
| **A106 2018/19** | **Argymhellwyd llofnodi Llythyr Cynrychiolaeth drafft y Prif Gwnstabl gan y llofnodwyr priodol.** | **CC/PCC** |
| **A107 2018/19** | **Dod â'r gwaith mewn perthynas â'r polisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd i'r Pwyllgor yn y dyfodol.** | **CFO** |
| **A107 2018/19** | **Cyfeirio at y Cydbwyllgor Archwilio fel trefniant i adrodd o fewn ymateb y Rheolwyr i'r ymholiadau archwilio ar drefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.** | **WAO** |
| **A108 2018/19** | **I'r tabl ar dudalen 40 gael ei ddiwygio cyn llofnodi'r Datganiad o Gyfrifon.** | **DoF** |
| **A108 2018/19** | **Mae'r Pwyllgor yn argymell y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Drafft ar gyfer 2017/18 i'r PCC a CC i'w gymeradwyo.** | **PCC/CC** |
| **A109 2018/19** | **TIAA i roi adborth yn y cyfarfod nesaf ar sut mae'r egwyddorion fel y'u nodir yn nogfen datganiad CIPFA Rôl Pennaeth Archwilio Mewnol yn berthnasol i TIAA fel sefydliad.** | **TIAA** |
| **A111 2018/19** | **I nifer y ceisiadau Mynediad at Ddata gan Destun a dderbynnir gan yr Heddlu i gael eu cylchredeg i'r Pwyllgor.** | **DJ** |
| **A112 2018/19** | **TIAA i ychwanegu blwch lefel blaenoriaeth i Adolygiadau dilynol i nodi lefel yr argymhellion sy'n weddill.** | **TIAA** |

| CRYNODEB CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL O'R CYFARFODYDD BLAENOROL | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu Rhif | Crynodeb Gweithredu | I'w ddatblygu gan |
| **A96 2017/18** | **CB i ofyn i aelodau'r Pwyllgor am wybodaeth ar eu proffil a'u cefndir i'w chyhoeddi ar wefan PCC.** | **CB** |
| **A97 2017/18** | **CoS i ystyried lle mae'r ymddiriedolaeth arni yn gyfreithiol o ran ei chysylltiad â'r OPCC.** | **OPCC** |